Estyn
Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad ar ansawdd gwasanaethau addysg awdurdodau lleol i blant a phobl ifanc

**yng**

**Nghyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen**
**Y Ganolfan Ddinesig**
**Pont-y-pŵl**
**Torfaen**
**NP4 6YB**

**Hydref 2011**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y darparwr a'i allu i wella.

Yn yr arfarniadau hyn, rydym yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

**Rhagorol**
**Da**
**Digonol**
**Anfoddhaol**

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 38 Deddf Addysg 1997, Deddf Plant 2004 a Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2012: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

# Cyd-destun

## Cyd-destun

Mae Torfaen yn ne ddwyrain Cymru. Mae'n ffinio â chyngor dinas Casnewydd, Sir Fynwy a bwrdeistrefi sirol Caerffili a Blaenau Gwent. Cyfanswm y boblogaeth yw 90,720.

Yn Nhorfaen, dywed 20% o bobl dros dair oed eu bod yn medru'r Gymraeg o'i gymharu â chyfartaledd Cymru, sef 25.6%.

Cyfradd y gyflogaeth yn Nhorfaen yw 64.8%, o'i chymharu â chyfartaledd Cymru, sef 66.7%. Mae 25.4% o blant yn byw mewn cartrefi di-waith. O'r boblogaeth weithio yn Nhorfaen, nid oes gan 16% unrhyw gymwysterau, sy'n uwch na chyfartaledd Cymru, sef 13.7%. Mae lleiafrifoedd ethnig yn cyfrif am 1.2% o'r boblogaeth, sy'n is na chyfartaledd Cymru, sef 3.6%.

Yn 2011, roedd canran y disgyblion oedd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn Nhorfaen yn is na chyfartaledd Cymru, a'r 10fed isaf yng Nghymru o'i gymharu ag awdurdodau lleol eraill, lle'r cyntaf yw'r ffigur prydau ysgol am ddim (PYDd) isaf a'r 22ain yw'r uchaf (PLASC 2011). Dim ond saith o'r 60 ardal yn Nhorfaen sydd yn awr yn y 10% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

Ar 31 Mawrth 2010, roedd yr awdurdod yn Nhorfaen yn gofalu am 235 o blant. Roedd 115 o blant ar y gofrestr Amddiffyn Plant.

## Cyllid

Roedd Asesiad Gwariant Safonol (AGS) Llywodraeth Cymru i bob pen o'r boblogaeth, sef £1,752 (yn seiliedig ar ffigurau poblogaeth canol blwyddyn 2010) ar gyfer Torfaen yn 2011-12 ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru, sef £1,697.

Gosododd y Cyngor ei gyllideb gyffredinol ar 100.3% o'r AGS, sydd bron yr un fath â chyfartaledd Cymru, sef 100.2%, a gosododd y gyllideb addysg ar lefel o 101.3% o'i ddyraniad cyllideb ddangosol (DCD) uwchlaw cyfartaledd Cymru, sef 99.5%. Dylid nodi nad targed gwariant yw'r DCD, ond mecanwaith ar gyfer pennu dyraniad cymorth Llywodraeth Cymru ar gyfer awdurdodau unigol. Y gyllideb addysg net i bob disgybl oedd £4,665 o'i gymharu â chyfartaledd Cymru gyfan, sef £4,770. Dirprwywyd cyllideb o £3,752 i bob disgybl ar gyfer ysgolion cynradd a £4,051 i bob disgybl ar gyfer ysgolion uwchradd. Mae'r naill a'r llall islaw cyfartaleddau unigol Cymru gyfan, sef £3,821 a £4,272.

## Crynodeb

**Barn gyffredinol: Anfoddhaol**

- Nid yw perfformiad mewn ysgolion uwchradd wedi gwella, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 4, sydd ymhlith yr isaf yng Nghymru ar bedwar o'r pum prif ddangosydd a osodwyd gan Lywodraeth Cymru;
- mae gormod o ysgolion yn y chwarter gwaelod ar gyfer perfformiad o'u cymharu ag ysgolion tebyg ar y meincnodau prydau ysgol am ddim;
- mae canran y bobl ifanc 16 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yn rhy uchel;
- er bod gwaharddiadau cyffredinol yn gostwng yn sylweddol, mae gwaharddiadau cyfnod penodol o bum diwrnod neu lai yn cynyddu ac maent ymhlith y gwaethaf yng Nghymru; a
- nodwyd bod angen gwella ysgol uwchradd ac UCD yn sylweddol yn y flwyddyn ddiwethaf.

Fodd bynnag:

- mae perfformiad yng nghyfnodau allweddol 1 a 2 wedi gwella'n sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf ac mae presenoldeb mewn ysgolion uwchradd wedi gwella hefyd;
- mae'r awdurdod wedi dechrau gwella ei brosesau i herio, monitro ac ymyrryd mewn ysgolion;
- mae gweithdrefnau diogelu wedi gwella ac mae'r awdurdod yn rhoi blaenoriaeth briodol iddynt; ac
- mae trefniadau craffu wedi gwella ac mae aelodau etholedig yn dechrau dwyn ysgolion a'u cyrff llywodraethol i gyfrif, sydd eisoes yn cael effaith gadarnhaol.

**Gallu i wella: Digonol**

- Nid yw perfformiad yn cael ei reoli'n gyson ar draws pob gwasanaeth addysg eto;
- nid yw'r awdurdod yn casglu a dadansoddi gwybodaeth gan bob asiantaeth i helpu'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc (PPPhI) i reoli a mesur perfformiad yn ddigon da; ac
- nid yw effaith y PPPhI ar ddarpariaeth a deilliannau ar gyfer plant a phobl ifanc yn Nhorfaen yn ddigon da.

Fodd bynnag:

- mae aelodau etholedig yn rhoi blaenoriaeth uchel i addysg;
- cafwyd arweinyddiaeth gref gan y Prif Weithredwr a'r Prif Swyddog Addysg i ysgogi newid a gwella perthnasoedd gydag ysgolion a phartneriaid; ac
- mae aelodau strategol yn ymwybodol o'r meysydd i'w gwella mewn ysgolion, ac maent yn defnyddio pwerau llawn yr awdurdod i wella ysgol y mae angen ei gwella'n sylweddol.

## Argymhellion

Er mwyn sicrhau'r gwelliannau sydd eu hangen, dylai'r awdurdod lleol:

A1 godi safonau mewn ysgolion uwchradd, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 4;

A2 cymryd camau i leihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NACH);

A3 gwella ansawdd a chysondeb wrth arfarnu gwasanaethau i lywio'r cynllunio yn fwy effeithiol;

A4 gwella perfformiad wrth reoli gwasanaethau i sicrhau dull cyson o gyflawni gwelliannau; a

A5 rhoi trefniadau llywodraethu effeithiol ar waith ar gyfer gwaith y PPPhI i sicrhau bod pob gwasanaeth ar gyfer plant a phobl ifanc yn Nhorfaen yn cael ei reoli'n briodol.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd awdurdod lleol Torfaen yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion hyn ymhen 50 diwrnod gwaith o dderbyn yr adroddiad.

Mae Estyn o'r farn fod yr awdurdod yn disgyn i'r categori gweithgarwch dilynol o welliant sylweddol.

Yn ystod pob arolygiad craidd, mae'r tîm arolygu yn ystyried a oes angen unrhyw weithgarwch dilynol ar awdurdod lleol.

Mae pum math o weithgarwch dilynol, sef:

1 Astudiaeth achos arfer dda
2 Monitro gan arolygydd cyswllt
3 Ymweliad monitro gan Estyn
4 Gwelliant sylweddol
5 Mesurau arbennig

Bydd unrhyw waith arolygu dilynol yn cael ei gynllunio i ystyried gweithgarwch arolygu a rheoleiddio arall mewn awdurdod. Bydd pob arolygiad dilynol yn cael ei gofnodi ar Galendr Rheoleiddio Awdurdodau Lleol i osgoi dyblygu a manteisio ar unrhyw gyfleoedd i weithio'n agosach gyda Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC).

## Prif ganfyddiadau

### Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? Anfoddhaol

**Safonau: Anfoddhaol**

Mae perfformiad yng nghyfnodau allweddol 1 a 2 wedi gwella'n sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf. Mae canran y dysgwyr sy'n cyflawni'r dangosydd pwnc craidd (y perfformiad disgwyliedig mewn Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol) yn y ddau gyfnod allweddol uwchlaw cyfartaledd Cymru erbyn hyn, ac mae'n cymharu'n dda â lefelau perfformiad mewn awdurdodau eraill.

Fodd bynnag, nid yw perfformiad mewn ysgolion uwchradd wedi gwella ar yr un gyfradd. Yng nghyfnod allweddol 3, fe wnaeth canran y dysgwyr sy'n cyflawni'r dangosydd pwnc craidd wella yn 2011, er ei bod yn parhau islaw'r cyfartaledd ar gyfer Cymru.

Dirywiodd perfformiad yng nghyfnod allweddol 4 o'i gymharu â pherfformiad mewn awdurdodau eraill yn 2011 ac mae ymhlith yr isaf yng Nghymru ar bedwar o'r pum prif ddangosydd a osodwyd gan Lywodraeth Cymru.

O'i gymharu â pherfformiad ysgolion tebyg yn ôl y meincnodau prydau ysgol am ddim, mae perfformiad yn 2011 ymhell uwchlaw'r cyfartaledd yng nghyfnodau allweddol 1 a 2. Yng nghyfnod allweddol 3, mae 70% o ysgolion islaw'r cyfartaledd ac nid oes digon o ysgolion yn y chwarter uchaf ar gyfer perfformiad.

Yng nghyfnod allweddol 4, mae ymhell dros hanner o'r ysgolion yn y 25% isaf ar bedwar dangosydd, gyda bron tri chwarter ohonynt yn y 25% isaf yn un o'r rhain. Nid oes yr un ysgol uwchlaw'r cyfartaledd ar drothwy lefel 2 (sy'n dangos cyfran y disgyblion sy'n ennill yr hyn sydd gyfwerth â phum cymhwyster TGAU gradd A* i C). Nid oes unrhyw ysgolion yn y 25% uchaf ac eithrio ar gyfer un ysgol ar un dangosydd.

Mae darlun o ddirywiad yn erbyn meincnodau Llywodraeth Cymru ar gyfer perfformiad ar sail hawl i gael prydau ysgol am ddim. Yn 2008, llwyddodd Torfaen i fodloni dau o'r tri meincnod. Nid yw wedi bodloni unrhyw feincnodau dros y tair blynedd diwethaf.

Mae cynnydd rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd islaw'r cyfartaledd ar y cyfan er bod trothwy lefel 1 (sy'n dangos cyfran y disgyblion sy'n ennill yr hyn sydd gyfwerth â phum cymhwyster TGAU gradd D i G) a'r sgôr pwyntiau ehangach cyfartalog (yn cynnwys yr holl gymwysterau a gymeradwywyd ar gyfer eu defnyddio yng Nghymru yn 16 oed) uwchlaw'r cyfartaledd yng nghyfnod allweddol 4.

Yn 2010, bu gwelliant yng nghanran y dysgwyr sy'n gadael addysg amser llawn heb unrhyw gymhwyster cydnabyddedig, ac mae'n well na chyfartaledd Cymru.

Yn 2011, yng nghyfnod allweddol 2, mae'r bwlch mewn perfformiad ar y dangosydd pwnc craidd rhwng bechgyn a merched yr un fath â'r bwlch ledled Cymru. Fodd bynnag, yng nghyfnod allweddol 1, cyfnod allweddol 3 a thri o'r pum prif ddangosydd yng nghyfnod allweddol 4, mae'r bwlch yn fwy na'r cyfartaledd. Cymysg yw perfformiad grwpiau o ddisgyblion bregus a'r rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Mae dysgwyr y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt yn perfformio'n dda o'u cymharu â normau cenedlaethol. Mae'r bwlch mewn perfformiad rhwng dysgwyr sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim a dysgwyr eraill yn ehangach nag y mae ledled Cymru gyfan.

Mae Torfaen yn awr wedi cyflwyno prawf darllen safonol ar draws pob un o'i hysgolion ym Mlynyddoedd 6, 7 a 9. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr sy'n cael cymorth i wella eu medrau llythrennedd a rhifedd mewn ysgolion cynradd yn gwneud cynnydd da tra byddant ar raglen ymyrraeth. Mae llawer ohonynt yn cynnal y gwelliannau hyn at ddiwedd y cyfnod allweddol. Mae canlyniadau profion darllen yn golygu bod darllenwyr yn Nhorfaen islaw'r cyfartaledd cenedlaethol ar lefel awdurdod lleol, ond mae hyn hefyd yn cuddio amrywiadau eang mewn perfformiad ar draws ysgolion. I ymateb, mae'r awdurdod wedi ailddrafftio ei strategaeth llythrennedd ac mae'n datblygu cynllun gweithredu diwygiedig.

Mae perfformiad mewn Cymraeg mamiaith ac ail iaith yn dda mewn ysgolion cynradd. Fodd bynnag, yng nghyfnodau allweddol 3 a 4, mae perfformiad mewn Cymraeg ail iaith yn parhau i fod ymhlith yr isaf yng Nghymru. Nid oes digon o ddysgwyr yn cael eu cofrestru ar gyfer cymwysterau mewn Cymraeg fel ail iaith ar ddiwedd cyfnod allweddol 4.

Mae enghreifftiau da o bobl ifanc yn cyflawni'n dda mewn lleoliadau nad ydynt yn rhai ffurfiol, er enghraifft Gwobr Dug Caeredin a'r Brifysgol i Blant. Fodd bynnag, nid oes digon o ddata ar gael i alluogi'r awdurdod i farnu cyflawniad ar draws y cyfan o ddarpariaeth felly.

**Lles: Digonol**

Mae presenoldeb yn y sector cynradd islaw cyfartaledd Cymru ym mhob mesur ac nid yw safonau yn y maes hwn yn llwyddo i gyrraedd yr hyn y gellid ei ddisgwyl. Ychydig iawn o dystiolaeth sydd o gynnydd cynaliadwy o ran gwella hyn.

Mewn cyferbyniad, mae presenoldeb mewn ysgolion uwchradd wedi gwella'n gyflym ac mae bellach uwchlaw'r hyn y gellid ei ddisgwyl, neu'n debyg iddo. Cyflawnwyd hyn trwy ostyngiad sylweddol mewn absenoldeb anawdurdodedig.

Mae cyfraddau presenoldeb grwpiau bregus o blant a phobl ifanc yn agos at gyfartaledd Cymru ar gyfer disgyblion yn Nhorfaen. Mae swyddogion yn monitro'r data hwn yn ofalus ac yn darparu ymyrraeth briodol lle bo angen.

Mae nifer y disgyblion sy'n cael eu gwahardd yn barhaol o ysgolion yn debyg i'r cyfartaledd ar gyfer Cymru. Mae gwaharddiadau cyfnod penodol o chwe diwrnod neu fwy wedi gostwng yn llawer cyflymach nag ar gyfer Cymru gyfan. Nifer gymharol fach o ddiwrnodau a gollwyd yn sgil gwaharddiadau cyfnod penodol, ac mae'r nifer hon yn gostwng. Mae perfformiad yn y dangosydd hwn yn agos at y gorau yng

Nghymru. Fodd bynnag, mae nifer y gwaharddiadau cyfnod penodol o bum diwrnod neu lai wedi bod yn cynyddu ac mae cryn dipyn yn waeth na'r hyn y gellir ei ddisgwyl erbyn hyn o'i gymharu â niferoedd mewn awdurdodau eraill.

Nid yw canrannau ymadawyr Blwyddyn 11 nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NACH) neu'n parhau mewn addysg amser llawn cystal â chyfartaleddau Cymru. Nid yw'r cyfartaleddau yn cymharu'n dda â chyfartaleddau awdurdodau tebyg eraill. Mae pob ysgol yn cyflwyno gweithgareddau Chwaraeon Cymru, ac mae niferoedd da o ferched a bechgyn yn cymryd rhan i'r un graddau. Mae'r nifer sy'n cymryd rhan yn cymharu'n dda â'r rhai mewn ardaloedd eraill yng Nghymru. Fodd bynnag, anaml y mae merched yn cymryd rhan mewn chwaraeon cymunedol tebyg.

Mae plant a phobl ifanc, trwy'r Fforwm Ieuenctid a chynghorau ysgol, yn cyfrannu'n dda at ymgynghori. Mae eu cyfraniadau wedi cael effaith ar reoli newid, cynllunio partneriaeth strategol, ailfodelu darpariaeth ysgolion a threfniadaeth ysgolion.

## Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? Digonol

### Cymorth ar gyfer gwella ysgolion: Digonol

Mae'r awdurdod wedi ailstrwythuro'r gwasanaeth gwella ysgolion yn ddiweddar ac mae wedi gwella ei brosesau i gefnogi, herio, monitro ac ymyrryd mewn ysgolion. Mae wedi llunio canllaw clir a chynhwysfawr ar bartneriaeth ar gyfer ysgolion. Mae hyn yn categoreiddio ysgolion yn briodol ac yn egluro cyfrifoldebau ysgolion ac awdurdodau lleol i ysgogi gwelliant. Gan nad yw'r canllaw wedi cael ei gyfleu yn effeithiol i bob pennaeth eto, nid yw wedi cael effaith hyd yma. Mae'r awdurdod yn gywir i roi pwyslais cryf ar herio ei ysgolion i ddadansoddi data perfformiad yn drylwyr.

Mae'r awdurdod wedi cydnabod nad yw wedi herio ysgolion yn ddigon effeithiol yn y gorffennol. O ganlyniad, mae Estyn wedi rhoi un ysgol gynradd, un ysgol uwchradd ac un uned cyfeirio disgyblion (UCD) mewn categori pryder yn y blynyddoedd diwethaf. Nid oedd yr awdurdod yn ymwybodol o'r materion a arweiniodd at roi'r UCD yn y categori gwelliant sylweddol. Mae'r awdurdod wedi gwella ei arfer a'i wybodaeth am ysgolion ers hynny, yn bennaf trwy arweinwyr systemau a benodwyd yn ddiweddar. Mae'r swyddogion hyn yn gwneud defnydd da o ddata perfformiad ac maent wedi gwella lefel yr her i ysgolion, ond mae'n rhy gynnar i weld yr effaith ar ddeilliannau i ddysgwyr. Nid yw'r data perfformiad a gyflwynir i ysgolion yn cynnwys digon o ddadansoddi cymharol ag ysgolion tebyg i sicrhau bod y dadansoddi yn annog her gadarn i ysgolion.

Mae proffiliau ysgolion uwchradd yn gynhwysfawr ac yn nodi meysydd i'w gwella yn gywir. Mae nodiadau o ymweliadau gan ymgynghorwyr gwella ysgolion ar gyfer eu hysgolion yn cynnwys manylion addas ac argymhellion priodol ar gyfer gwella. Mae swyddogion gwella ysgolion a swyddogion o wasanaethau ADY a chynhwysiant wedi cael eu trefnu'n dimau amlddisgyblaethol yn ddiweddar i wella eu gwaith gydag ysgolion. Fodd bynnag, nid ydynt yn cydweithio'n ddigon effeithiol yn eu gwaith i gael effaith ar y deilliannau ar gyfer pob dysgwr neu i argyhoeddi pob pennaeth bod hwn yn ddull effeithiol.

Mae cymunedau dysgu proffesiynol sy'n canolbwyntio ar godi safonau eisoes wedi effeithio ar wella perfformiad mewn ysgolion cynradd. Mae'r awdurdod wedi dysgu oddi wrth yr arfer dda hon ac wedi'i defnyddio i wella ffocws grwpiau eraill.

Nododd arfarniad yr awdurdod o'i strategaeth llythrennedd nad oedd yn ddigon effeithiol o ran gwella oedrannau darllen disgyblion. O ganlyniad, mae swyddogion wedi ailddrafftio'r strategaeth hon ac maent wrthi'n diweddaru'r cynllun gweithredu. Mae'r awdurdod wedi comisiynu ymgynghorwyr i weithio gydag ysgolion uwchradd i wella safonau mewn Saesneg a mathemateg. Fodd bynnag, nid yw effaith lawn y gwaith hwn ar safonau wedi cael ei dangos eto. Mae'r awdurdod wedi rhoi cymorth da ar gyfer rhoi'r Cyfnod Sylfaen ar waith. Nid yw'n gwneud digon i wneud yn siŵr bod plant a phobl ifanc yn cael digon o opsiynau i astudio yn 14-19 oed ar y lefel briodol.

Mae'r awdurdod yn cynorthwyo llywodraethwyr ysgol yn dda ond dim ond yn ddiweddar y mae llywodraethwyr wedi dod yn ymwybodol o'r cyrhaeddiad gwael yn ysgolion Torfaen, ers i'r awdurdod ddarparu mwy o wybodaeth. Mae ansawdd yr hyfforddiant a ddarperir ar gyfer llywodraethwyr yn dda, ond mae presenoldeb mewn sesiynau hyfforddi llywodraethwyr yn parhau i fod yn wael, er ei fod yn gwella. Rhoddir cymorth cryf i wella perfformiad arweinwyr canol mewn ysgolion uwchradd.

**Cymorth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol: Digonol**

Mae Torfaen wedi gweithio'n effeithiol i gynyddu niferoedd y disgyblion sy'n cael cymorth heb fynd trwy brosesau statudol. Mae hyn wedi arwain at ostyngiad yn nifer y datganiadau o anghenion addysgol arbennig flwyddyn ar ôl blwyddyn er 2004. Dau awdurdod yn unig sydd â llai o ddisgyblion ar ddatganiadau. Mae swyddogion yn gweithio'n dda gyda phenaethiaid a chynrychiolwyr SNAP Cymru i sicrhau bod ysgolion yn cael ymatebion cyson a theg i geisiadau am gymorth ychwanegol.

Mae gweithdrefnau clir a meini prawf a ddeëllir yn dda ar gyfer darparu ac atal cymorth ychwanegol i fodloni'r ystod eang o anghenion ychwanegol disgyblion. Fodd bynnag, mae'r diagnosis o angen yn araf i rai disgyblion ac mae hyn yn golygu nad yw disgyblion bob amser yn cael cymorth mewn modd amserol.

Mae ymgynghori effeithiol gyda phenaethiaid wedi arwain at ddirprwyo cyllideb cymorth ychwanegol yr awdurdod i ysgolion. Mae hyn yn dechrau cael effaith gadarnhaol gan fod ysgolion erbyn hyn yn bodloni ystod ehangach o anghenion ychwanegol disgyblion heb fod angen gofyn am fwy o gymorth.

Fodd bynnag, nid yw asesu ac ymyrraeth gynnar yn digwydd bob amser. Nid yw rhai ysgolion cynradd bob amser yn cyfleu eu pryderon am ddatblygiad disgyblion wrth rieni yn ddigon cynnar. Weithiau, mae hyn yn golygu nad yw anghenion disgyblion yn cael eu bodloni'n ddigon cynnar. Hyd yn oed i ddisgyblion y caiff eu hanghenion eu nodi cyn iddynt ddechrau'r ysgol, nid yw'r gwasanaethau a allai helpu ar gael bob amser.

Nid yw'r system rheoli data a gafodd ei gwella'n ddiweddar wedi cael effaith eto, ac nid yw'r ffordd o fonitro cynnydd a deilliannau disgyblion yn systematig wedi cael ei datblygu digon. Mae hyn yn golygu bod yr awdurdod yn ansicr ynglŷn ag effaith rhai gwasanaethau ar gyflawniad disgyblion.

Mae'r gwasanaeth yn rhoi cymorth a hyfforddiant da i ysgolion. Ynghyd â'r adnoddau datganoledig, mae hyn yn golygu y gall ysgolion ddatblygu eu hyder a'u medrau wrth fodloni anghenion mwy o ddisgyblion heb fod angen gofyn am fwy o gyngor. Mae cymorth allymestyn effeithiol gan yr ysgol arbennig wedi ychwanegu at ystod yr awdurdod o wasanaethau arbenigol. Fodd bynnag, nid yw cynaliadwyedd y cymorth allymestyn hwn wedi'i warantu.

Mae Torfaen wedi ymgynghori'n dda gyda disgyblion mewn dwy ysgol fel rhan o'i harbrawf â chynlluniau datblygu unigol.

Yn gyffredinol, rhoddir cymorth da ac amserol i rieni a gofalwyr. Mae swyddogion gwybodus yn ymatebol i bryderon rhieni. Mae'r cymorth ar gyfer rhieni disgyblion ag Anhwylder y Sbectrwm Awtistig ac ar gyfer rhieni o'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr yn arbennig o effeithiol. Fodd bynnag, nid yw'r awdurdod yn gwneud digon i sicrhau bod pob rhiant yn ymwybodol o ystod y cymorth a'r cyngor sydd ar gael iddynt. Mae hyn weithiau'n arwain at oedi o ran cael cymorth pwysig, hyd yn oed yn y blynyddoedd cynnar lle rhoddir cymorth da ar y cyfan.

Mae gan y gwasanaeth weledigaeth glir ar gyfer gwella ysgolion yn seiliedig ar y flaenoriaeth genedlaethol ar gyfer addysg gynhwysol. Fodd bynnag, nid yw'r cynllunio a'r cyflwyno strategol rhwng ADY a'r gwasanaethau gwella ysgolion yn ddigon cydlynus ac mae hyn yn atal gallu'r awdurdod i fod yn effeithiol wrth fodloni anghenion pob un o'i bobl ifanc.

At ei gilydd, mae gan yr awdurdod lleol ddealltwriaeth dda o'r hyn y mae am ei gyflwyno i wneud rhai o'r gwelliannau gofynnol i'r gwasanaeth. Fodd bynnag, ychydig iawn o dystiolaeth sydd ar gael o'r modd y bydd y gwelliannau hyn yn cael eu rhoi ar waith yn lleol, neu unrhyw dystiolaeth o ddadansoddi anghenion ar gyfer y gwelliannau hyn. Mae'r cynllunio i ymdrin â goblygiadau ariannol bodloni'r dyheadau hyn yn wan.

**Hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol a lles: Digonol**

Caiff disgyblion o grwpiau bregus, yn cynnwys plant y gofelir amdanynt (PGA), eu cynorthwyo'n helaeth. Mae'r dull partneriaeth ac amlasiantaethol sy'n datblygu yn dechrau elwa ar y system newydd ar gyfer rhannu data. Fodd bynnag, nid yw hyn wedi cael effaith ar safonau eto. Yn 2009-2010, cyfradd perfformiad disgyblion sy'n blant y gofelir amdanynt ar lefel 2 oedd 17%, sydd islaw perfformiad eu cyfoedion yn Nhorfaen a 27% islaw'r perfformiad ar gyfer holl ddisgyblion Cymru.

Mae'r awdurdod wedi penodi seicolegydd addysg arbenigol i arwain gwelliannau mewn rheoli ymddygiad. Mae'n rhy gynnar i farnu effaith hyn ar y nifer gymharol fach o ysgolion lle nad yw problemau wedi cael eu datrys am gyfnod rhy hir.

Mae Torfaen wedi ailstrwythuro ei thîm rheoli yn yr UCD ac wedi egluro rolau a chyfrifoldebau er mwyn sicrhau perfformiad gwell. Mae wedi recriwtio staff addysgu ychwanegol ac wedi cryfhau'r cynllunio ar gyfer dysgu ac addysgu.

Mae cymorth gwell ar gyfer presenoldeb wedi cael effaith gadarnhaol mewn ysgolion uwchradd yn ddiweddar yn sgil rhoi strwythur a ffocws newydd i'r gwasanaeth

swyddogion lles addysg (SLIA). Fodd bynnag, nid yw'r gwelliannau hyn wedi cael eu hymgorffori'n llawn na'u cymhwyso'n gyson ar draws pob ysgol gynradd eto.

Mae Torfaen yn gweithio'n dda gyda'r heddlu a'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol i ymgysylltu â theuluoedd problemus yn effeithiol. Mae'r strategaethau hyn wedi helpu i wella presenoldeb a lleihau'r achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol ar draws y fwrdeistref sirol.

Mae'r awdurdod yn hwyluso defnydd plant a phobl ifanc o wasanaethau y mae eu hangen arnynt, er enghraifft cwnsela a Gwobr Dug Caeredin. Fodd bynnag, nid yw swyddogion gwasanaethau ieuenctid yn gwybod a yw plant a phobl ifanc yn cael cyfle i ddefnyddio ystod addas o wasanaethau cymorth ieuenctid priodol. Ailstrwythurwyd y gwasanaeth ieuenctid ryw bum wythnos cyn yr arolygiad hwn, felly mae'n rhy gynnar i farnu'r cyfraniad y bydd yn ei wneud at wasanaethau cymorth ieuenctid Torfaen.

Mae gweithio da mewn partneriaeth gyda'r gwasanaeth troseddau ieuenctid i nodi'r rhai sydd mewn perygl o naill ai ymddieithrio neu fod yn gysylltiedig â'r system cyfiawnder ieuenctid. Defnyddir hyn yn dda i hysbysu ysgolion a thargedu ymyriadau lle bydd angen.

Mae'r awdurdod yn defnyddio ystod o strategaethau i leihau canran y bobl NACH neu'r rhai sydd mewn perygl o fod yn NACH. Fodd bynnag, nid yw'r strategaethau hyn bob amser yn gydlynus, nid ydynt yn cael eu cydgysylltu'n dda ac nid ydynt, hyd yn hyn, wedi cael yr effaith a ddymunir ar wneud gostyngiad sylweddol yn nifer y bobl ifanc sydd wedi'u categoreiddio yn NACH.

Mae'r trefniadau ar gyfer diogelu wedi gwella yn Nhorfaen. Mae'r awdurdod lleol yn rhoi llawer o bwyslais ar amddiffyn plant a phobl ifanc ac yn ei gwneud yn flaenoriaeth ar bob lefel o arfer. Mae gan swyddogion, gwasanaethau ac ysgolion hanes da o gydymffurfio.

**Mynediad a lleoedd ysgol: Digonol**

At ei gilydd, mae gan yr awdurdod ddigon o le yn ei ysgolion a'i leoliadau blynyddoedd cynnar i fodloni anghenion dysgwyr a rhieni, yn cynnwys yr angen cynyddol am leoedd cyfrwng Cymraeg. Mae gan yr awdurdod wybodaeth fanwl am y lleoedd sydd ar gael yn ei ysgolion a'r galw am y lleoedd hyn yn y dyfodol. Mae canran uchel o leoedd gwag mewn nifer o ysgolion cynradd a dwy ysgol uwchradd. Mae'r awdurdod wedi cymryd camau i leihau nifer y lleoedd gwag trwy uno a chau ysgolion, ond mae'r cynnydd cyffredinol ers yr arolygiad diwethaf yn 2006 wedi bod yn araf.

Mae'r awdurdod yn gwybod beth yw cyflwr ac addasrwydd adeiladau ysgolion yn dda. Mae ôl-groniadau o £17 miliwn o atgyweiriadau mewn ysgolion, ac mae gormod o adeiladau nad ydynt yn addas at eu diben. Mae cynlluniau strategol da ar waith i fynd i'r afael â'r problemau hyn ac fe gaiff y rhain eu cyfleu'n dda yn y dogfennau Ysgolion yr 21ain Ganrif a dogfennau trawsnewid ôl-16. Mae'r cynlluniau hyn yn dibynnu ar gyllid sylweddol gan Lywodraeth Cymru ac mae ansicrwydd ynglŷn â'u dyfodol.

Mae gweithdrefnau derbyn ar gyfer ysgolion yn glir ac yn cael eu cyfleu'n dda i rieni. Maent yn bodloni gofynion statudol, ac mae'r Fforwm Derbyniadau yn effeithiol. Mae Torfaen yn gweithio'n dda gydag awdurdodau cyfagos ar weithdrefnau derbyn a dewisiadau, yn enwedig o ran darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Bodlonir dewisiadau ysgolion bron pob un o'r rhieni, yn enwedig ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg, ac ymdrinnir yn gyflym â'r nifer fach o apeliadau a dderbynnir gan yr awdurdod. Ymdrinnir yn effeithiol ac yn ddi-oed â phlant sy'n trosglwyddo i ysgolion yn yr awdurdod a phlant sydd wedi'u gwahardd o'r ysgol. Mae gan yr awdurdod gynlluniau strategol da i wneud yn siŵr bod y galw am y blynyddoedd cynnar a chwarae yn cael ei fodloni.

Er bod ystod o wasanaethau cymorth ieuenctid ar gael i bobl ifanc yn Nhorfaen, nid oes gan yr awdurdod a'r PPPhI drosolwg strategol clir o'r gwasanaethau hyn i fod yn siŵr eu bod yn bodloni anghenion a hawliau pobl ifanc a'u teuluoedd.

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? Digonol**

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Mae aelodau etholedig ar draws pleidiau gwleidyddol yn rhoi blaenoriaeth uchel i addysg. Maent yn gosod gweledigaeth briodol. At hynny, maent wedi gwneud rhai penderfyniadau anodd yn unol â'u blaenoriaethau. Er enghraifft, fe wnaethant gau pwll nofio er budd gwasanaethau eraill, yn cynnwys addysg. Caiff y cysylltiadau rhwng y weledigaeth a'r cynlluniau strategol, busnes a gweithredu eu hamlinellu'n dda. Fodd bynnag, nid yw'r manylion mewn cynlluniau gweithredu bob amser yn ddigon clir i helpu swyddogion i weld beth y mae angen iddynt ei wneud i ysgogi gwelliannau.

Cafwyd arweinyddiaeth dda gan y Prif Swyddog Gweithredol a'r Prif Swyddog Addysg i ddechrau newid a'i reoli. Maent wedi gwella'r berthynas gydag aelodau etholedig, rhwng adrannau'r awdurdod a chydag ysgolion yr awdurdod. Mae'r awdurdod wedi newid ei ffocws yn ddiweddar i gynyddu'r her i ysgolion. Mae'r arweinyddiaeth dda hon wedi arwain at welliannau yn y gwasanaeth a ddarperir ac at welliannau ym mherfformiad ysgolion yng nghyfnodau allweddol 1 a 2. Mae'r awdurdod yn rhoi ffocws priodol i wella deilliannau yng nghyfnod allweddol 4, er bod cynnydd i'w wneud yma o hyd. Ni roddwyd digon o ffocws ar y PPPhI nac ar y modd y gall gwasanaethau cymorth ieuenctid ehangach helpu plant a phobl ifanc i gyflawni.

Mae aelodau etholedig yn gwybod bod yn rhaid i safonau barhau i wella. Trwy eu grwpiau nod craidd, maent yn ymwybodol o berfformiad cyffredinol ysgolion Torfaen. Mae aelodau yn dechrau dwyn ysgolion i gyfrif. Er enghraifft, mae penaethiaid a'r Prif Swyddog Addysg yn cyflwyno proffiliau ysgolion uwchradd ar y cyd i lywio arfarnu. Fodd bynnag, nid ydynt yn cael digon o ddadansoddiad o wybodaeth i'w helpu i weld y darlun llawn. Er enghraifft, nid oedd aelodau perthnasol yn ddigon ymwybodol o danberfformiad sylweddol disgyblion yn yr UCD.

Mae'r bwrdd gwasanaethau lleol (BGLl) yn dechrau gweithio'n dda i wneud yn siŵr bod gwaith rhyngasiantaethol da yn helpu'r teuluoedd mwyaf heriol. Er enghraifft, yn Thornhill, mae cydweithio rhwng yr heddlu, gwasanaethau tai a'r gymuned wedi cyfrannu at ostyngiad crybwylledig o weithgarwch troseddol o 70% yn y ward honno.

Mae gwaith bwrdd gweithredol y BGLl yn destun craffu gan banel o aelodau etholedig ac uwch swyddogion cyfetholedig o asiantaethau perthnasol eraill. Mae hyn yn ddatblygiad da ond nid yw wedi cynnwys edrych ar effaith ei waith ar blant a phobl ifanc.

Mae craffu ar wasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc wedi gwella ac mae'r her i swyddogion yn fwy effeithiol. Mae'r pwyllgor craffu wedi gwneud defnydd da o arbenigedd allanol o addysg a busnes i roi ffocws ar anghenion y gymuned a dysgwyr, er enghraifft.

Mae lefel briodol o aeddfedrwydd yn y berthynas rhwng swyddogion a'r pwyllgor craffu. Mae swyddogion yn herio penderfyniadau ac argymhellion y pwyllgor ac yn cyfeirio materion at ei sylw. Gwnaed gwaith da i wella'r ffordd y caiff data ar berfformiad ysgolion ei gyflwyno i'r pwyllgor craffu. Fodd bynnag, ni ddefnyddir y data yn ddigon da i lywio dadansoddiad cymharol o ddeilliannau ysgolion tebyg neu ddadansoddiad o berfformiad grwpiau bregus.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Fe wnaeth adroddiad hunanarfarnu'r awdurdod nodi meysydd i'w gwella mewn perfformiad yn gywir, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 4. Fodd bynnag, mewn lleoedd eraill, nid yw'r adroddiad yn cynnwys manylion ac nid yw'n rhoi digon o sylw i strategaethau i wella llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) a'u heffaith ar ddeilliannau. Yn yr adrannau hyn, nid yw'n cydnabod y cynnydd y mae'r awdurdod wedi'i wneud yn ddigon da ac nid yw ychwaith yn nodi meysydd i'w datblygu ymhellach. Cafodd aelodau etholedig, swyddogion ac asiantaethau eraill eu cynnwys yn briodol mewn paratoi'r adroddiad hunanarfarnu. Mae gan yr awdurdod drefniadau da ar gyfer ymgynghori â phobl ifanc a'r gymuned ehangach.

Mae'r awdurdod wedi gwella ei system rheoli data i gasglu, dadansoddi ac adrodd ar ddata perfformiad. Mae uwch swyddogion ac aelodau etholedig yn deall perfformiad ysgolion erbyn hyn, er nad yw pob gwasanaeth yn defnyddio data yn ddigon cyson. Nid yw'r awdurdod yn casglu ac yn dadansoddi gwybodaeth gan bob asiantaeth i helpu'r PPPhI i fesur perfformiad yn ddigon da.

Mae rheolwyr strategol wedi adolygu perfformiad ar draws ysgolion yr awdurdod ac wedi nodi meysydd pwysig i'w gwella. O ganlyniad, mae gweithdrefnau diogelu a chyfraddau presenoldeb ysgolion uwchradd wedi gwella fel ei gilydd, er bod cynnydd ar berfformiad yng nghyfnod allweddol 4 yn parhau i fod yn rhy araf. Mae'r Prif Swyddog Addysg wedi ailstrwythuro'r tîm rheoli gwella ysgolion yn ddiweddar yn dilyn adolygiadau o arfer yr awdurdod. Mae swyddogion yn awr yn rhoi ffocws craffach ar herio ysgolion i wella, ac maent wedi amlinellu'n glir yn y canllaw partneriaeth newydd sut y bydd y gwasanaeth yn dwyn ysgolion i gyfrif. Mae'r canllaw hwn yn dangos bod yr awdurdod yn deall yr hyn y mae angen iddo'i wneud i wella ysgolion. Mae'r awdurdod wedi defnyddio ei bwerau statudol yn ddiweddar er mwyn gwella ysgol sy'n achosi pryder ac mae'n un o blith nifer fach yn unig o awdurdodau yng Nghymru sydd wedi gwneud hynny. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i nodi effeithiau'r mentrau hyn ar godi safonau.

Caiff mentrau fel y strategaeth llythrennedd a gwaith ymgynghorwyr mewn ysgolion uwchradd eu harfarnu'n drylwyr i nodi meysydd i'w gwella ymhellach. Fodd bynnag, nid yw hunanarfarnu yn ddigon cyson ar draws gwaith yr holl wasanaethau addysg. Mae trefniadau rheoli perfformiad wedi gwella ers yr arolygiad diwethaf, er nad ydynt yn gyson ar draws pob tîm. Mae cynlluniau timau yn ategu'r cynllun gwella gwasanaethau yn dda, er nad yw rhai ohonynt yn cynnwys targedau perfformiad clir.

Mae'r awdurdod wedi mynd i'r afael â'r rhan fwyaf o'r argymhellion o arolygiadau blaenorol o wasanaethau addysg, er nad yw wedi ffurfioli ei strategaeth ariannol tymor canolig yn llawn.

**Gweithio mewn partneriaeth: Anfoddhaol**

Mae'r awdurdod yn deall pa mor bwysig yw gweithio mewn partneriaeth wrth gyflwyno gwelliannau mewn gwasanaethau a deilliannau ar gyfer dysgwyr. Mae'r ffocws cryf a'r flaenoriaeth a roddir i bartneriaethau strategol yn Nhorfaen, o'r BGLl i bartneriaethau rhanbarthol a lleol, yn adlewyrchu hyn yn glir. Mae gan bob partner strategol gynlluniau priodol sy'n cydymffurfio â gofynion Llywodraeth Cymru, ac maent yn defnyddio blaenoriaethau cenedlaethol a lleol yn dda i lywio eu cynlluniau. Mae Cynllun Plant a Phobl Ifanc Torfaen yn amlinellu'r weledigaeth drosfwaol a'r cyfeiriad strategol ar gyfer plant a phobl ifanc yn glir. Fodd bynnag, nid yw effaith y partneriaethau strategol, yn enwedig y PPPhI, ar ddarparu gwasanaethau a deilliannau ar gyfer plant a phobl ifanc yn Nhorfaen, yn ddigon da.

Mae enghreifftiau da o bartneriaethau gydag awdurdodau lleol eraill ac asiantaethau eraill yn ne ddwyrain Cymru. Mae'r rhain yn rhoi ffocws priodol ar gydweithio fel bod y gwasanaethau a gyflwynir yn cynyddu cynhwysedd ac yn gwella effeithlonrwydd. Mae enghreifftiau yn cynnwys Consortiwm De Ddwyrain Cymru (CDDdC) ar gyfer gwella ysgolion, lle mae pob un o'r tri awdurdod cyfagos wedi cymeradwyo achos busnes amlinellol ar y cyd yn ddiweddar, y Bartneriaeth Dysgu 14-19 a'r gwaith sy'n datblygu gyda chwmnïau fel CISCO a Microsoft ar gyfer gwella TG fel adnodd dysgu ar draws yr awdurdod.

Mae hunanarfarnu gwaith ac effaith y partneriaethau amrywiol gan ei bartneriaid yn rhywbeth diweddar iawn, ac o'r herwydd, nid yw'r awdurdod a'i bartneriaid yn siŵr ynghylch pa mor dda y maent yn gweithredu.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Yn 2011-2012, fe wnaeth y Cyngor ddiogelu ei gyllideb ysgolion ddirprwyedig rhag toriadau, ac mae'n bwriadu cynyddu'r gyllideb hon 1% am y ddwy flynedd nesaf. Mae hyn yn arwyddocaol o ystyried y gostyngiad yn lefelau cyllid y Cyngor ac mae'n adlewyrchu ei ymrwymiad i addysg.

Mae'r Cyngor yn datblygu cynllun ariannol tymor canolig i ffurfioli ei flaenoriaethau a'i strategaethau cyllid. Mae'r awdurdod yn deall y pwysau ar ei gyllideb ac mae wedi llunio rhagolwg ariannol pum mlynedd sy'n rhagweld bylchau o ran cyllid, yr arbedion sydd eu hangen a phwysau ar y gwasanaeth yn y dyfodol.

Mae'r Cyngor wedi alinio ei gynllunio ar gyfer y gweithlu â chynllunio ariannol yn dda ac mae wedi rhoi fframwaith corfforaethol ar waith i leihau costau'r gweithlu mewn ffordd fesuradwy a chymesur. Mae'r awdurdod wedi llunio arweiniad priodol i gynorthwyo ysgolion i reoli lefelau staffio mewn modd teg, eglur a chyson.

Mae'r awdurdod wedi dyrannu ac ail-alinio adnoddau yn unol â rhai o'i flaenoriaethau, er enghraifft TGCh, moderneiddio ysgolion, mentrau llythrennedd a swyddi ychwanegol mewn rhai meysydd allweddol. Mae wedi defnyddio cyllid allanol yn dda i ddarparu adnoddau ar gyfer elfennau o'i raglen cyfalaf ysgolion.

Caiff y Fforwm Cyllideb Ysgolion (FfCY) ei ddefnyddio'n effeithiol i drafod materion ariannol sy'n gysylltiedig ag ysgolion ac ysgogi newid. Mae ei rôl wedi cael ei ehangu'n ddefnyddiol i gynnal adolygiadau gwerth am arian.

Mae Cytundebau Lefel Gwasanaeth yn cynnig eglurder ar raddau, cost ac ansawdd gwasanaethau cymorth sydd, at ei gilydd, yn cael eu hystyried yn dda gan ysgolion a'u hadolygu bob blwyddyn. Nid yw'r awdurdod yn cymharu ei gostau â chostau awdurdodau lleol eraill, ond mae'n cynnal adolygiadau gwerth am arian mewn meysydd fel rheoli caffael.

Mae'r awdurdod yn monitro balansau ysgolion yn dda ac yn herio ysgolion yn briodol. Pennwyd mwyafsymiau ar gyfer balansau dros ben a bydd unrhyw swm ychwanegol yn cael ei gymryd yn ôl o 2012-2013 er mwyn sicrhau bod dysgwyr yn elwa ar yr adnoddau hyn.

Er bod dealltwriaeth ar y cyd yn Nhorfaen o'r blaenoriaethau ar gyfer addysg, nid yw'r cysylltiadau rhwng y weledigaeth strategol a'r cynlluniau busnes ym mhob maes gwasanaeth ac ar draws y PPPhI bob amser yn glir. Mae hyn, ynghyd ag arfarniad anghyson o effaith, yn golygu nad yw'r awdurdod bob amser yn gwybod lle y dylid targedu ei adnoddau a'i wasanaethau i fodloni anghenion dysgwyr ac ysgogi gwelliant cynaliadwy. Mae gwaith wedi dechrau i wella hyn, ond mae'n rhy gynnar i farnu ei effaith.

Mae Torfaen wedi cyflawni arbedion cost sylweddol, y mae wedi'u hailfuddsoddi mewn gwasanaethau plant. Mae wedi rhoi'r gorau i ddibynnu ar leoliadau drud y tu allan i'r sir ac wedi datblygu cymorth cost-effeithiol, amlasiantaethol. Mae'r awdurdod wedi sicrhau derbyniadau cyfalaf sylweddol yn llwyddiannus, yn sgil gwerthu eiddo'r awdurdod lleol, sy'n cael eu neilltuo ar gyfer ail-fuddsoddi mewn prosiectau addysg. Fodd bynnag, gan fod y farn ar gyfer safonau yn anfoddhaol, mae gwerth am arian yn anfoddhaol.

## Atodiad 1

### Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Stephen Lamb AEM | Arolygydd Cofnodol |
| Mererid Stone AEM | Arolygydd Tîm |
| Susan Roberts AEM | Arolygydd Tîm |
| Huw Collins AEM | Arolygydd Tîm |
| Farrukh Khan AEM | Arolygydd Tîm |
| Angharad Reed AEM | Arolygydd Tîm |
| Jane Taylor AEM | Arolygydd Tîm |
| Louise Fleet | Swyddfa Archwilio Cymru |
| Gareth Morgans | Arolygydd Cymheiriaid |
| Dermot McChrystal | Enwebai |

### Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)